
# Cymunedau Digidol Cymru




## E-Ddysgu

Nid yw 15% (400,000) o oedolion yng Nghymru ar-lein. Mae Cymunedau Digidol Cymru, ynghyd â'n partneriaid yn Digital Unite, wedi datblygu hyfforddiant i staff rheng flaen a gwirfoddolwyr i gynorthwyo'r rheiny sy'n cael eu hallgáu'n ddigidol. Bydd y cyrsiau hyn yn galluogi sefydliadau i integreiddio cymorth cynhwysiant digidol yn eu gweithgareddau pob dydd trwy ddeall y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu a phwysigrwydd cynhwysiant digidol.

## Manteision dysgu o bell

Yn wahanol i hyfforddiant wyneb yn wyneb traddodiadol, nid oes angen i chi roi llawer o'ch amser i ddysgu a datblygu. Mae'n wych ar gyfer gweithio o bell, a chael gwybodaeth mewn darnau bach.

Gallwch gwblhau e-ddysgu unrhyw bryd, a gallwch fynd ar fforymau i gael gwybodaeth barhaus, a chael cyngor gan gyd-ddysgwyr.





## Gweminar

Mae gweminarau'n ffordd wych o gynnal sesiwn hyfforddiant gyflym 30 munud i 1 awr gydag un o'n hyfforddwyr medrus ar bwnc o'ch dewis yn ymwneud â chynhwysiant digidol, sy'n amrywio o ddiogelwch ar-lein i ysbrydoli pobl i fynd ar-lein. Gallwn drefnu gweminarau i fodloni eich oriau staff/amseroedd cyfarfod.

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

Digital Champions Network

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government